

Croeso i'n ail gylchlythyr!

Mae ardal Crindau o Gasnewydd mewn perygl sylweddol o gael ei eff eithio gan lifogydd llanwol gyda thua 650 o eiddo mewn perygl. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi creu cynllun lliniaru llifogydd. Bydd y cynllun yn ymestyn ar hyd glannau Crindau Pill.

Gwaith sydd ar y gweill

Mae pyst y seiliau wedi'u cwblhau y tu cefn i'r eiddo diwydiannol ar Stryd Adelaide ac ar Stryd Pugsely yn yr ardal gemau aml-ddefnydd (MUGA) a'r rhandiroedd.

Mae'r ardaloedd canlynol yn cael eu paratoi ar hyn o bryd, a'u diogelu ar gyfer gwaith pyst y seiliau nesaf:

1. I'r gogledd o ystafelloedd newydd parc Shaftesbury
2. I'r gogledd ac i'r de o Bont Ffordd Lyne
3. Ffordd Lyne gyferbyn â McDonalds
4. I'r gogledd a'r de o ganolfan Hyfforddi Ambiwlans Sant Ioan
5. I'r gogledd o Wasanaethau Drysau Diwydiannol (Stryd Adelaide) I Gwrt Waterside (Stryd Albany)



Cau ffordd, Pont Ffordd Lyne o ddydd Llun 3 Ebrill 2017 tan ddydd Sadwrn 27 Mai 2017

Mae'r bont yn rhan allweddol o'r cynllun llifogydd newydd. Bydd y gwaith yn cynnwys symud waliau parapet y bont bresennol a'u hailosod â waliau concrit cyfnerthedig a pharatoi'r bont ar gyfer cysylltiad gyda'r waliau llifogydd newydd bob ochr i'r bont. Er lles diogelwch, ac mewn cytundeb â Chyngor Dinas Casnewydd, byddwn yn cau Ffordd Lyne o'r gyffordd gyda Stryd Albany i'r gyffordd gyda Stryd Edwin (drws nesaf i McDonalds). Darperir arwyddion llawn ar gyfer y llwybrau dargyfeirio yn ystod y cyfnod.

DIOLCH: Rydym wedi derbyn galwad gan breswyllydd lleol ar Stryd Pugsely, yn canmol ein gweithlu am eu cwrtseisi, ystyriaeth a'u hymrwymiad diffuant i'r preswylwyr a chyflawni'r prosiect.

Helpu'r amgylchedd

Rydym yn ail-gylchu darnau mawr o goncrit a cherrig a gafodd eu tyllu o ffos pyst y seiliau. Mae'r malwr yn lleihau maint y darnau i oddeutu 80mm nau lai. Rydym wedi bod yn defnyddio'r deunydd i ffurfio mat ar gyfer gosod y peiriant pyst arno.



Efallai eich bod wedi gweld y fan yma'n gyrru o gwmpas y safle. Renault Kangoo Z.E. yw hwn. Fan trydan yw, ac mae gennym bwynt llenwad ar ein safle. Dywed Sam, un o'r gyrwyr, ei fod yn hawdd i'w gyrru ac yn llonyddol iawn heb swm yr injan.



Ymgysylltu â'r gymuned

Roedd y digwyddiad galw heibio yn Ysgol Gynradd Crindau yn llwyddiant a thrafodwyd y cynllun gyda rheini, gofawyr ac athrawon lleol. Derbyniom adborth cadarnhaol a byddwn yn edrych i drefnu digwyddiad arall yn y misoedd nesaf wrth i'r cynllun ddatblygu.

Mae rheolwr Clwb Pêl-droed Shaftesbury wedi gofyn a fedrwn helpu gyda darparu deunyddiau ar gyfer ffens derbyn y cae. Rydym yn edrych ar opsiynau a syniadau ar hyn o bryd a fyddai'n cefnogi cais y clwb.

Rydym yn cynnig cymorth pellach i'n 'Ffrindiau yn y rhandiroedd'. Rydym wedi darparu dau gynhwysydd dros dro fel cyfleusterau storio tra byddwn yn cwblhau'r gwaith yn yr ardal sydd yn ymwithio ar y rhandiroedd. Rydym hefyd wedi darparu menig gweithio i'w cynorthwyo gyda chloddio'r gwanwyn!

Cysylltwch â Gino Salvatore os hoffech drafod unrhyw beth sy'n ymwneud â gweithgareddau cymunedol neu adeiladu.

Ffôn: 07918 640481

Ebo: gino.salvatore@gallifordtry.co.uk

Gall unrhyw un sy'n pryderu am lifogydd wirio eu perygl llifogydd, a darganfod os gwasanaeth rhybuddio am lifogydd am ddim ar gael yn eu hardal grwy ffonio Floodline ar 0345 988 1188 neu drwy ymweld â www.cyfoethnaturiol.cymru/llifogydd.